WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol 2014-15

# Cyngor Sir Powys

Cyhoeddwyd: Awst 2015
Cyfeirnod y ddogfen: 433A2015



Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Colin Davies a Justine Morgan o dan gyfarwyddyd Jane Holownia.

**Huw Vaughan Thomas**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Fwrdd Swyddfa Archwilio Cymru, sef bwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac er mwyn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn atebol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, gwasanaethau prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff a noddir ganddi a'i chyrff cyhoeddus cysylltiedig, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yn anelu at ddarparu adroddiadau cymesur sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd ar stiwardiaeth adnoddau cyhoeddus a thrwy wneud hynny, feithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliant.

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Adroddiad cryno | 4 |
| Diben yr adroddiad hwn | 4 |
| Gwaith archwilio perfformiad 2014-15 | 5 |
| Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu ac mae'n gwneud cynnydd da o ran ei feysydd â blaenoriaeth, ond mae'n wynebu heriau sylweddol o ran comisiynu a darparu ei wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion | 6 |
| Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau | 7 |
| Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella | 8 |
| Adroddiad manwl | 10 |
| Y defnydd o adnoddau | 11 |
| Llywodraethu | 14 |
| Perfformiad | 20 |
| Atodiadau | |
| Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn | 23 |
| Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Powys | 24 |
| Atodiad 3 – Archwiliad o asesiad Cyngor Sir Powys o berfformiad 2013-14 | 26 |
| Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol | 28 |
| Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15 | 32 |
| Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau'r Cyngor | 37 |

# Adroddiad cryno

## Diben yr adroddiad hwn

1 Bob blwyddyn, mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant cynghorau, awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parciau cenedlaethol yng Nghymru, ac asesu a fydd pob awdurdod yn cyflawni dyletswyddau statudol yn ymwneud â gwelliant parhaus[1]. Cyflawnwyd y gwaith hwn ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan staff Swyddfa Archwilio Cymru. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o fewn llywodraeth leol.

2 Yn ogystal, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cynnal asesiad corfforaethol trylwyr ym mhob awdurdod ar sail gylchol (unwaith bob pedair blynedd o leiaf ar hyn o bryd). Yn y cyfamser, yn ogystal ag archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant, bydd Swyddfa Archwilio Cymru, ar ran yr Archwilydd Cyffredinol, yn olrhain datblygiadau ac yn cyflawni gwaith asesu pellach sy'n canolbwyntio ar nifer o themâu allweddol, a ddatblygir mewn trafodaeth â phob awdurdod.

3 Mae'r Adroddiad Gwella Blynyddol hwn yn crynhoi'r gwaith archwilio a wnaed yng Nghyngor Sir Powys (y Cyngor) ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf o'r fath ym mis Gorffennaf 2014. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys crynodeb o ganfyddiadau allweddol o adroddiadau a gyhoeddwyd gan 'reoleiddwyr perthnasol', sef: Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC); Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (Estyn); a Chomisiynydd y Gymraeg. Serch hynny, nid yw'r adroddiad hwn yn adolygiad cynhwysfawr o holl drefniadau neu wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau a geir yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y gwaith a gyflawnwyd o fewn y Cyngor gan gyrff adolygu allanol perthnasol ac, oni nodir fel arall, yn adlewyrchu'r sefyllfa ar yr adeg pan gafodd gwaith o'r fath ei gwblhau.

4 Gan ystyried y gwaith a gyflawnwyd yn ystod 2014-15, mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi rhoi 'Casgliad Cyffredinol' yn yr adroddiad hwn ac mae'n nodi a yw o'r farn y bydd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2015-16 (gweler tudalen 6).

5 Ni ddylid ystyried bod y datganiad hwn yn rhoi barn bendant am sefyllfa sefydliad nac yn rhagfynegi ei lwyddiant yn y dyfodol. Yn hytrach, dylid ystyried ei fod yn rhoi barn am y graddau y mae'r trefniadau sydd ar waith ar hyn o bryd yn rhesymol gadarn i'r graddau y gellir nodi hynny ar sail y gwaith a gyflawnwyd.

6 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@audit.wales neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd, CF11 9LJ.

1 Nodir dyletswyddau a gofynion ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur).

## Gwaith archwilio ac arolygu perfformiad 2014-15

7 Wrth bennu'r amrywiaeth o waith a gyflawnwyd yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ystyried graddau'r wybodaeth archwilio ac arolygu a gasglwyd yn ogystal â ffynonellau eraill o wybodaeth a oedd ar gael, gan gynnwys systemau adolygu a gwerthuso'r Cyngor ei hun. Ar gyfer 2014-15, cynhaliodd Swyddfa Archwilio Cymru waith asesu gwelliant o dan dair thema: y defnydd o adnoddau; llywodraethu; a pherfformiad. Roedd y prosiectau unigol a gynhaliwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru a'r rheoleiddwyr eraill yn ystod y flwyddyn yn cynnwys y canlynol:

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad cynllunio ariannol** | Asesiad o sefyllfa ariannol y Cyngor a sut mae'n cyllidebu ac yn cyflawni arbedion gofynnol. | Mehefin – Hydref 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor** | Asesu a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Gynllun Gwella. | Ebrill – Mehefin 2014 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Archwiliad o Adroddiad ar Berfformiad y Cyngor** | Asesu a yw'r Cyngor yn cydymffurfio â chanllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiad ar Berfformiad. | Tachwedd 2014 – Ebrill 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru - Atgyfnerthu Gwaith Craffu Ariannol yng Nghyngor Sir Powys** | Cefnogi a herio dull y Cyngor o atgyfnerthu ei waith craffu ariannol. | Gorffennaf 2014 – Chwefror 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o drefniadau rheoli rhaglenni a phrosiectau** | Asesiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli rhaglenni a phrosiectau er mwyn helpu i gyflawni Cynllun Powys yn Un. | Awst 2014 – Mawrth 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o drefniadau partneriaeth a chydweithredu** | Asesiad o effeithiolrwydd trefniadau Adran 33 sy'n llywodraethu'r Bartneriaeth TGCh rhwng y Cyngor a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys. | Awst 2014 – Mawrth 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o'r Rhaglen Datblygu Arweinwyr** | Asesiad o ymateb y Cyngor i'n hargymhelliad statudol a gyhoeddwyd yn 2011 mewn perthynas â meithrin gallu. | Gorffennaf 2014 – Mawrth 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o drefniadau ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd** | Asesiad o'r cynnydd a wnaed o ran y trefniadau ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd amgylcheddol y Cyngor. | Hydref 2013 – Hydref 2014 |

| Enw'r Prosiect | Disgrifiad byr | Dyddiadau [pryd y cyflawnwyd y gwaith] |
|---|---|---|
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o drefniadau'r Cyngor ar gyfer dosbarthu Budd-daliadau Tai yn ôl Disgresiwn** | Asesiad o ba mor effeithiol y mae'r Cyngor yn dyrannu, yn dosbarthu, yn gweinyddu ac yn defnyddio Budd-daliadau Tai yn ôl Disgresiwn. | Tachwedd – Ebrill 2015 |
| **Swyddfa Archwilio Cymru – Adolygiad o drefniadau'r Cyngor i gefnogi diogelu plant** | Asesiad o effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu'r Cyngor o ran diogelu plant. | Mawrth – Tachwedd 2014 |
| **AGGCC – Adolygiad o berfformiad yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2013-14** | Asesiad o berfformiad swyddogaeth Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. | Ebrill 2013 – Mawrth 2014 |
| **AGGCC - Arolygiad o drefniadau diogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg** | Asesiad o effeithiolrwydd gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer plant dros 11 oed sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal y nodwyd eu bod yn agored i niwed a/neu'n ymddwyn mewn ffordd a allai beri risg. | Ebrill – Mai 2014 |
| **Comisiynydd y Gymraeg – Adolygiad o Gynllun Iaith Gymraeg y Cyngor** | Asesiad o effeithiolrwydd y Cynllun wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg. | Gorffennaf – Tachwedd 2014 |

## Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau llywodraethu ac mae'n gwneud cynnydd da o ran ei feysydd â blaenoriaeth, ond mae'n wynebu heriau sylweddol o ran comisiynu a darparu ei wasanaethau gofal cymdeithasol i oedolion

8 Yn seiliedig ar y gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru a rheoleiddwyr perthnasol, ac yn gyfyngedig i'r gwaith hwnnw, cred yr Archwilydd Cyffredinol fod y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â gofynion y Mesur yn ystod 2015-16. Mae'r Archwilydd Cyffredinol wedi dod i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ar y cyfan ac mae'n eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben yn yr hinsawdd ariannol fwyfwy heriol. Mae'r Cyngor wedi atgyfnerthu ei drefniadau ar gyfer gwaith craffu ariannol ac mae mewn sefyllfa dda i ysgogi gwelliant o ran ei waith cynllunio ariannol tymor canolig. Fodd bynnag, mae angen ymestyn trefniadau rheoli ariannol i gynnwys data perfformiad gwasanaethau. Bydd hyn yn hwyluso gwaith craffu a herio gwell gan yr aelodau er mwyn sicrhau nad yw safonau gwasanaethau disgwyliedig yn cael eu peryglu.

b Er bod y Cyngor wedi ymgorffori dull hyfforddi er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gallu ac adnoddau, mae'n dal i wynebu heriau sylweddol o ran llunio ac ailfodelu ei ddarpariaeth gofal cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol a chadernid ei swyddogaeth contractio a chomisiynu.

c Mae'r Cyngor, gyda'i bartneriaid, wedi sefydlu trefniadau rheoli rhaglenni er mwyn cyflawni'r blaenoriaethau gwella a nodir yng Nghynllun Powys yn Un 2014-17, er bod y trefniadau hyn yn dal i gael eu datblygu wrth i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd geisio cytuno ar ddull gweithredu cyffredin. Hefyd, mae'r Cyngor yn cydnabod yr angen i nodi rhagor o fesurau y gellir eu defnyddio i fesur canlyniadau a pherfformiad yn effeithiol a'u datblygu.

## Penawdau – crynodeb o'r prif ganfyddiadau

9 Mae'r tabl isod yn crynhoi canfyddiadau allweddol gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru, a'r rheoleiddwyr eraill, yn 2014-15.

| | |
|---|---|
| **Y defnydd o adnoddau** | Swyddfa Archwilio Cymru – Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ar y cyfan ac mae'n eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben yn yr hinsawdd ariannol fwyfwy heriol. (paragraffau 13 i 18)<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru – Mae'r Cyngor wedi neilltuo'r rhan fwyaf o'i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ond oherwydd gwendidau o ran y ffordd y mae'n rheoli ac yn monitro cronfeydd, nid yw'n glir p'un a yw'r rhai â'r anghenion mwyaf yn cael help. (paragraffau 19 i 24) |
| **Llywodraethu** | Swyddfa Archwilio Cymru – Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull cadarn o atgyfnerthu ei waith craffu ariannol ac mae mewn sefyllfa dda i ysgogi gwelliant o ran ei waith cynllunio ariannol tymor canolig. (paragraffau 25 i 32)<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru – Mae'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan ond gellid gwneud rhai gwelliannau. (paragraffau 33 i 38)<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru – Mae partneriaeth TGCh Powys wedi gwella cadernid y gwasanaeth ac wedi lleihau'r risg TG, ac mae trefniadau adran 33 yn darparu sail gadarn ar gyfer gwaith integredig. (paragraffau 39 i 46)<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru – Mae'r Cyngor wedi ymgorffori dull hyfforddi er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gallu ac adnoddau. (paragraffau 47 i 50)<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru – Mae cynllun gwella'r Cyngor a'i werthusiad o'i berfformiad yn cydymffurfio â gofynion Mesur 2009. (paragraffau 51 i 56) |

| | |
|---|---|
| **Perfformiad** | AGGCC – Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran llunio ac ailfodelu ei ddarpariaeth gofal cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol a chadernid ei swyddogaeth contractio a chomisiynu. (paragraffau 57 i 64)<br><br>Swyddfa Archwilio Cymru – Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn unol â'r safon ofynnol, ond bydd yn ei chael hi'n anodd ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd. (paragraffau 65 i 67)<br><br>Comisiynydd y Gymraeg – Mae'r Cyngor wedi nodi anghenion ei ddinasyddion a'i weithlu o ran y Gymraeg ac mae'n integreiddio'r wybodaeth hon yn y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau. (paragraffau 68 i 74) |
| **Archwilio trefniadau cynllunio ac adrodd ar welliant** | Swyddfa Archwilio Cymru - Cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol dystysgrifau archwilio yn nodi bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.<br>(Atodiadau 2 a 3). |
| **Archwilio cyfrifon** | Swyddfa Archwilio Cymru - Ar 11 Rhagfyr 2014, cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol Lythyr Archwilio Blynyddol i'r Cyngor. Mae'r llythyr yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'i gyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'i gyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio. Cadarnhaodd ei fod wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu ar 30 Medi 2014, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn.<br><br>Tynnodd y Llythyr Archwilio Blynyddol sylw at rai anawsterau sylweddol a wynebwyd gan y tîm archwilio wrth brofi'r datganiadau ariannol ac mae'n disgrifio'r camau gweithredu a gynigiwyd gan Gyfarwyddwr Strategol Adnoddau'r Cyngor er mwyn eu datrys.<br>(Atodiad 4). |

## Argymhellion a chynigion ar gyfer gwella

10 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a'r heriau y mae'n eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem wedi dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

a wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;

b gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;

c cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac

ch argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.

11 Nid yw'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud unrhyw argymhellion ffurfiol i'r Cygnor yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn. Fodd bynnag, mae'n gwneud argymhellion a all fod yn berthnasol i'r Cyngor yn ei Adroddiadau Cenedlaethol ar Lywodraeth Leol. Ceir rhestr o argymhellion mewn adroddiadau a gyhoeddwyd yn 2014-15 yn Atodiad 5. Mae nifer o gynigon ar gyfer gwella hefyd i'r Cyngor sy'n deillio o'r gwaith a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod y flwyddyn.

12 At hynny, nododd AGGCC, Estyn a Chomisiynydd y Gymraeg feysydd i'w gwella yn eu hadroddiadau arolygu a'r llythyrau a roddwyd i'r Cyngor yn ystod 2014-15. Gellir eu gweld yn www.cssiw.org.uk, www.estyn.gov.uk a www.comisiynyddygymraeg.org.

| Cynigion ar gyfer gwella sy'n deillio o waith Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2014-15 |
| --- |
| Dylai'r Cyngor wneud y canlynol: |
| C1 Adolygu ei arferion gwaith yn erbyn yr argymhellion yn Adroddiadau Llywodraeth Leol 2014-15 yr Archwilydd Cyffredinol a rhoi'r gwelliannau ar waith, lle y bo'n briodol. |
| C2 Ymestyn ei drefniadau monitro ariannol i gynnwys data perfformiad gwasanaethau er mwyn sicrhau nad yw safonau gwasanaeth disgwyliedig yn cael eu peryglu ar draul sicrhau arbedion ariannol. |
| C3 Sicrhau bod camau priodol ac amserol yn cael eu cymryd i reoli risgiau a thanberfformiad mewn perthynas â diogelu a sicrhau bod aelodau etholedig yn cael gwybod am drefniadau rheoli risg a bod hynt y broses o ymdrin â risgiau ym maes diogelu yn cael ei gynnwys mewn gwaith craffu yn y dyfodol. |
| C4 Gwella gwaith Pwyllgor Craffu'r Cyngor er mwyn sicrhau ei fod yn rhoi sicrwydd ar effeithiolrwydd trefniadau diogelu corfforaethol y Cyngor. |
| C5 Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig a staff sy'n dod i gysylltiad â phlant yn rheolaidd yn cael hyfforddiant ym maes diogelu ac amddiffyn plant a pholisi diogelu corfforaethol y Cyngor. |
| C6 Nodi a chytuno ar raglen o waith archwilio mewnol priodol ar gyfer diogelu. |

# Adroddiad manwl



## Y defnydd o adnoddau

### Mae trefniadau rheoli ariannol y Cyngor yn gadarn ar y cyfan ac mae'n eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben yn yr hinsawdd ariannol fwyfwy heriol

13 Rhwng mis Mai a mis Awst 2014, edrychodd Swyddfa Archwilio Cymru ar sefyllfa ariannol awdurdodau a'r ffordd y maent yn cyllidebu ac yn cyflawni'r arbedion gofynnol. Ystyriodd y gwaith hwn pa un a oes gan awdurdodau drefniadau cadarn ar waith i reoli'r gostyngiadau cyllidebol sy'n eu hwynebu er mwyn sicrhau eu bod mewn sefyllfa ariannol sefydlog a fydd yn eu galluogi i barhau i weithredu yn y dyfodol agos. Mae'r gwaith yn canolbwyntio ar gyfnod cynllunio ariannol 2014-15. Er mwyn llywio barn ar gynllunio ar gyfer cyllidebau a'u cyflawni'n llwyddiannus, ystyriwyd hefyd berfformiad ar gyfer y blynyddoedd ariannol blaenorol 2011-12 a 2013-14.

14 Dros y cyfnod 2011-14, mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo. Yn ddiweddar cwblhaodd y Cyngor adolygiad sylfaenol o'i drefniadau cynllunio ariannol strategol er mwyn ei alluogi i weithredu ei fodel 'cyngor comisiynu' newydd a sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith sy'n addas at y diben yn ystod cyfnodau o her ariannol sylweddol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gweledigaeth o'r newydd; egwyddorion pennu cyllideb newydd; blaenoriaethau newydd ar gyfer gweithredu model gweithredol y 'cyngor comisiynu'; a safbwynt tymor hwy o ran cynllunio ariannol hyd at 2020.

15 Mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yn dilyn adolygiad ariannol gan gymheiriaid a gynhaliwyd gan CLILC, mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei swyddogaeth gyllid ac mae wrthi'n rhoi gwasanaeth cymorth gwybodaeth busnes a rheoli ariannol ar waith ar gyfer ei gwsmeriaid yn hytrach na pharhau i gyflawni rôl gyfrifyddu draddodiadol. Mae'r swyddogaeth gyllid yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau er mwyn nodi'r ffactorau sy'n achosi ansefydlogrwydd wrth gyflawni cyllidebau gwasanaethau a mynd i'r afael â hwy, er enghraifft mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion.

16 Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ariannol ac mae'n gweithio gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus, CIPFA a Grant Thornton er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd o ran cynnal prosesau herio, monitro a chraffu ariannol cadarn ymhellach.

17 Mae gan y Cyngor gynlluniau priodol ar waith er mwyn sicrhau arbedion gwerth £17.6 miliwn y mae wedi nodi bod angen eu cyflawni ar gyfer 2014-15, ac mae'n eu monitro'n ofalus er mwyn nodi unrhyw risg o lithriant sylweddol a fyddai'n amharu ar gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae angen ymestyn y trefniadau monitro ariannol i gynnwys data perfformiad gwasanaethau er mwyn hwyluso gwaith craffu a herio effeithiol gan yr aelodau er mwyn sicrhau na pheryglir safonau gwasanaeth disgwyliedig.

18 Yn 2015, bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal adolygiad pellach o gadernid ariannol y Cyngor, gan ganolbwyntio ar y cyfnod cynllunio ariannol 2015-16 ac yn cynnwys rhagor o waith ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn.

## Mae'r Cyngor wedi neilltuo'r rhan fwyaf o'i Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn ond oherwydd gwendidau o ran y ffordd y mae'n rheoli ac yn monitro cronfeydd, nid yw'n glir p'un a yw'r rhai â'r anghenion mwyaf yn cael help

19 Mae Deddf Diwygio Lles 2012 yn cyflwyno newid mawr i'r ffordd y caiff budd-daliadau eu gweinyddu a'u dosbarthu a chaiff effaith sylweddol ar lawer o ddinasyddion. Ym mis Ebrill 2011, dechreuodd Llywodraeth y DU ar raglen ddiwygio a fydd yn arwain at gyflwyno'r Credyd Cynhwysol fesul cam rhwng mis Hydref 2013 a 2017. Un o brif nodweddion cynlluniau Llywodraeth y DU yw'r newidiadau i Fudd-dal Tai, sy'n ceisio lleihau gwariant blynyddol tua £2.3 biliwn. Mae'r newidiadau hyn yn golygu y bydd miloedd o gartrefi ym Mhrydain Fawr yn cael llai o fudd-daliadau, gan arwain at ddewisiadau anodd iddynt am y ffordd y maent yn defnyddio eu harian ac yn ymdopi'n ariannol o ddydd i ddydd.

20 Ym mis Ionawr 2015, cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru ei adroddiad ar ba mor dda y mae cynghorau yn rheoli effaith newidiadau diwygio lles ar denantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru. Adolygodd ei adroddiad y broses o reoli a defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn gan gynghorau yng Nghymru a daeth i'r casgliad fod anghysondebau a gwendidau sylweddol yn y broses o ddyrannu, dosbarthu, gweinyddu a defnyddio'r taliadau hyn. Gwnaethom waith dilynol mewn cynghorau unigol.

21 Canfu ein hadolygiad fod gan y Cyngor rai prosesau ar waith er mwyn helpu cwsmeriaid sy'n agored i niwed i wneud cais am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn. Mae gwefan y Cyngor yn rhoi rhywfaint o wybodaeth am sut y gall ymgeisydd wneud cais am gymorth a ffurflen gais. Mae'n gymharol hawdd i ymgeisydd ddod o hyd i'r wybodaeth hon ar-lein ac mae'n cynnwys ffurflen gais y gellid ei lawrlwytho. Fodd bynnag, ni ellir cwblhau'r ffurflen ar-lein ond mae'n gymharol fyr (mae'n cynnwys pum tudalen).

22 Nid oes gan y Cyngor strategaeth na datganiad polisi cyhoeddedig i esbonio sut mae Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cyfrannu at ymdrin ag effaith diwygiadau lles, er bod 'Cynllun Powys yn Un' yn nodi blaenoriaeth y Cyngor i weithio i leihau tlodi. Fodd bynnag, nid yw 'Cynllun Powys yn Un' yn nodi sut y bydd y Cyngor yn gweinyddu ac yn defnyddio Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn er mwyn helpu i gyflawni'r amcan strategol hwn, neu fynd i'r afael â'r caledi ariannol a wynebir gan deuluoedd sydd ag anghenion tai.

23 Mae'r Cyngor wedi rhoi proses ar waith i fonitro lefel gwariant yn erbyn yr arian a ddarperir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau a nifer y bobl y mae wedi'u helpu. Fodd bynnag, nid yw'r Cyngor yn monitro nifer y landlordiaid sy'n cael cymorth er mwyn sicrhau bod dosbarthiad da ar draws pob sector ac ardal, ac nid yw ychwaith yn monitro effaith ei Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn na sut mae'r adnoddau hyn wedi

helpu cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt gan y newidiadau a gyflwynwyd o dan y trefniadau diwygio lles na'u heffaith ar gynnal tenantiaethau.

24 Roedd y Cyngor wedi talu £459,723 o'i ddyraniad o £560,638 gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar ddiwedd mis Tachwedd 2014 ac wedi helpu 1,228 o bobl. Mae hyn yn cyfateb i 82 y cant o'i ddyraniad. Er bod y Cyngor yn ceisio sicrhau ei fod yn defnyddio'r holl arian sydd ganddo ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn, oherwydd gwendidau o ran ei drefniadau monitro a gwerthuso ni all fod yn siŵr bod Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael effaith gadarnhaol ar y rhai sydd â'r anghenion mwyaf.

## Llywodraethu

### Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu dull cadarn o atgyfnerthu ei waith craffu ariannol ac mae mewn sefyllfa dda i ysgogi gwelliant o ran ei waith cynllunio ariannol tymor canolig

25 Fel rhan o'i rhaglen gymorth i Gymru, bu'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus yn gweithio gyda'r Cyngor i atgyfnerthu ei ddulliau craffu ariannol. Roedd un o elfennau allweddol y gwaith hwn yn ymwneud â sefydlu Panel Craffu Cyllid i wneud gwaith craffu cyllidebol ac ariannol a oedd yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Archwilio ynghyd â chadeiryddion y pwyllgorau craffu ac Arweinwyr Grŵp Grwpiau Anweithredol.

26 Diben y Panel yw cynnig cymorth a her o ansawdd uchel i'r Cyngor wrth iddo ddatblygu a chyflawni ei Strategaeth Ariannol Tymor Canolig. Mae hefyd wedi ystyried ffyrdd y gellir atgyfnerthu'r broses pennu cyllideb flynyddol er mwyn hwyluso mwy o weithgarwch ymgysylltu o ansawdd uchel ag aelodau etholedig.

27 Mae'r Cyngor yn dangos tystiolaeth o brosesau herio a chraffu mewnol cadarn. Arddangosodd y Cyngor ei ddull newydd o graffu ar waith Cynllunio Cyllidebol a gwaith Cynllunio Ariannol Tymor Canolig yng nghynhadledd genedlaethol y Ganolfan Craffu Cyhoeddus a gynhaliwyd yn ddiweddar yn Llundain. Cafodd ei ddull gweithredu ei gefnogi a'i lywio gan Ganolfan Craffu Cyhoeddus Cymru, CIPFA a Grant Thornton ac rydym yn ystyried ei fod yn arfer da.

28 Aeth y Cyngor ati i ennyn mwy o ymddiriedaeth rhwng y Cabinet, yr Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Craffu er mwyn galluogi'r Cyngor i ddangos arweinyddiaeth 'cyngor cyfan' yn well ar adeg pan fo llai o arian ar gael a gwasanaethau yn cael eu trawsnewid. Ceisiodd ddangos lefelau uchel o wybodaeth, sgiliau a hyder ymhlith swyddogion anweithredol yn eu rolau craffu ariannol. Hefyd, yn bwysig iawn, roedd am i gysyniad her gael ei ystyried yn rhywbeth hanfodol gan yr arweinwyr wrth brofi'r ffordd y mae'r Cyngor yn gwneud dewisiadau strategol ynghylch dyrannu adnoddau.

29 Roedd y dull cydweithredol hwn, gyda Chanolfan Craffu Cyhoeddus Cymru/Grant Thornton a CIPFA, yn cynnwys asesiad sylfaenol o allu ac adnoddau aelodau etholedig; sefydlu Panel Craffu Ariannol dynodedig; datblygu a chyflwyno cyfres o 10 seminar dysgu i'r Cabinet, y Pwyllgor Craffu a'r Uwch Dîm Rheoli a chyd-ddatblygu a gweithredu Rhaglen o Waith Craffu Ariannol ar gyfer 2015-16.

30 Mae'r Cyngor a'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus wedi cynnal eu gwerthusiad eu hunain a chanfod bod mathau gwahanol o effeithiau rhyng-gysylltiedig wedi'u cyflawni o ganlyniad i'r rhaglen. Roedd y rhain yn cynnwys effeithiau ar wybodaeth a sgiliau; cysylltiadau rhyngbersonol; a diwylliant ac ymddygiad. Nododd y gwerthusiad yr hyn a oedd yn gweithio'n dda a pham; ac eglurodd beth roedd hyn yn ei olygu i'r Cyngor o ran beth yw gwaith craffu da.

31 Nododd y dysgu myfyriol fod:

a gwaith craffu effeithiol yn helpu i hoelio sylw ar bethau sy'n bwysig a all ddylanwadu ar achos ac effaith wrth i sefydliadau ymateb i newid;

b gwaith craffu llwyddiannus yn dibynnu ar arweinyddiaeth, dycnwch, ymrwymiad i fanteisio ar wybodaeth a sgiliau a'r defnydd o gryn dipyn o ddeallusrwydd emosiynol; a

c deall bod mabwysiadu'r dôn gywir yn ymwneud gymaint â 'diben' ag y mae'n ymwneud â 'modd' sy'n helpu i osgoi amddiffynoldeb, gwadu a gwrthod sy'n aml yn nodweddiadol mewn sefyllfaoedd lle mae gwaith craffu yn achub y blaen.

32 Yn y dyfodol bydd y Panel Craffu Ariannol yn ymgynghori ynghylch ei Flaenraglen Waith ar gyfer 2015-17 ac yn ei mireinio, gan gynnwys adolygu model cynllunio ariannol y Cyngor a chynigion drafft ar gyfer arbedion ar gyfer 2016-17. Mae'r Panel yn bwriadu edrych ar gynllun datblygu sefydliadol y Cyngor ac ystyried ei gydberthynas â strategaeth gwella costau'r Cyngor. Mae angen hefyd ganolbwyntio ar gynyddu lefelau o ymgysylltu a chyfranogi mewn prosesau pennu cyllidebau.

## Mae'r trefniadau llywodraethu, atebolrwydd a rheoli ar gyfer cyfrifoldebau o ran diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan ond gellid gwneud rhai gwelliannau

33 Cyhoeddodd y Cyngor ei Bolisi a'i Weithdrefn Amddiffyn Plant yn 2011 a chafodd y polisi ei gymeradwyo gan y Bwrdd Lleol Diogelu Plant (BLIDP). Mae'r Cyngor wedi sefydlu cynllun gwaith o adolygiadau o bolisïau a gweithdrefnau, gyda'r holl bolisïau yn cael eu hadolygu o fewn cylch tair blynedd. Mae'r BLIDP hefyd yn ymwneud â'r gwaith o fonitro ac adolygu polisïau a gweithdrefnau yn enwedig pan fydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad neu'n gwneud newidiadau i ganllawiau statudol.

34 Mae gan y Cyngor fframwaith atebolrwydd clir ar gyfer diogelu gan gynnwys swyddogion arweiniol penodol o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ac aelodau arweiniol o fewn y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu. Nodwyd gennym fod y trefniadau hyn yn dra hysbys o fewn y Cyngor.

35 Er bod diogelu yn ymddangos ar y Gofrestr o Risgiau Corfforaethol, ac er y nodir bod trefniadau rheoli risg ar waith ar sawl lefel, prin oedd y dystiolaeth bod gwaith rheoli a chofnodi effeithiol yn cael ei gyflawni yn ymarferol. Cawsom hefyd fod ymwybyddiaeth a gwybodaeth aelodau etholedig am reoli risg yn wael.

36 Mae trefniadau'r Cyngor ar gyfer monitro a gwerthuso ei gyfrifoldebau o ran diogelu plant yn ddigonol ar y cyfan. Cyflwynir Adroddiadau Rheoli Amddiffyn Plant i'r BLIDP, ac i'r Pwyllgor Craffu a'r Cabinet bob chwarter. Mae adroddiadau yn cynnwys perfformiad yn erbyn amrywiaeth o fesurau yn ogystal â straeon dienw am brofiadau plant unigol o wasanaethau'r Cyngor. Mae gan Bwyllgor Craffu'r Cyngor is-grŵp sy'n arbenigo mewn Addysg a Gwasanaethau Cymdeithasol ac mae hyn

wedi galluogi aelodau i ddatblygu a gwella eu gwybodaeth am faterion diogelu allweddol. Mae hyfforddiant diogelu yn orfodol i staff Gwasanaethau Cymdeithasol ac Addysg ac i lywodraethwyr ysgolion ac aelodau etholedig. Fodd bynnag, ni cheir tystiolaeth bod hyfforddiant diogelu (heblaw am sesiwn sefydlu gorfforaethol) yn cael ei roi i bob maes gwasanaeth perthnasol.

37 Mae'r ffordd y mae'r Cyngor yn nodi ac yn gweithredu ar welliannau o ran ei drefniadau diogelu yn ddigonol ond, unwaith eto, gellid gwneud rhai gwelliannau. Yn y gorffennol, mae'r Cyngor wedi cael dirwy am dorri rheolau diogelu data. O ganlyniad, cafodd Cynllun Gwella ei lunio a'i weithredu. Fodd bynnag, nid yw'r gwasanaeth Archwilio Mewnol wedi chwarae rhan sylweddol yn y broses o ystyried trefniadau diogelu Plant, sy'n tanseilio gallu'r Cyngor i fodloni ei hun bod ei drefniadau diogelu yn gweithio'n effeithiol.

38 Ar y cyfan cafwyd bod trefniadau Chwythu'r Chwiban yn wael ond mae'r Cyngor wedi dechrau ymdrin â'r problemau, gan ddechrau gyda pholisi. Y camau nesaf yw cynllunio a gweithredu trefniadau priodol ar gyfer llunio adroddiadau llwyth achos, craffu, hyfforddi staff a chodi ymwybyddiaeth.

## Mae partneriaeth TGCh Powys wedi gwella cadernid y gwasanaeth ac wedi lleihau'r risg TG, ac mae trefniadau adran 33 yn darparu sail gadarn ar gyfer gwaith integredig

39 Ym mis Gorffennaf 2012, ymrwymodd y Cyngor a Bwrdd Addysgu Iechyd Powys (y Bwrdd Iechyd) i bartneriaeth ffurfiol (y partneriaid) i ddarparu gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gan dîm ar y cyd a sefydlwyd drwy integreiddio timau TGCh y ddau sefydliad. Defnyddiodd y partneriaid gytundeb adran 33 fel ffordd o greu cyllid refeniw a chyfalaf cyfunol. Mae'r cytundeb adran 33 yn darparu sail ffurfiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth y mae cynlluniau unigol y bartneriaeth yn rhan ohoni. Y cynllun cyntaf a ddaeth yn rhan o'r cytundeb oedd y cynllun TGCh, a ddaeth yn weithredol o 1 Gorffennaf 2012.

40 Datblygodd y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd y cytundeb adran 33 gyda'r bwriad y byddai'n para am o leiaf bedair blynedd (hyd at 2016) gydag adolygiad blynyddol yn cael ei gynnal er mwyn gallu ei ddiwygio fel y bo'n briodol. Y Cyngor sy'n gyfrifol am y gwasanaeth TGCh ar y cyd a'r cytundeb. Mae rheolau rheoli ariannol a chyfrifyddu ariannol y Cyngor yn gymwys. Felly, gall y gwasanaeth ar y cyd adennill TAW yn ogystal â defnyddio hyblygrwyddau ariannol eraill sydd ar gael i gyrff llywodraeth leol.

41 Nid ydym wedi adolygu'r cytundeb adran 33 a fabwysiadwyd yn 2012 nac, yn benodol, effeithiolrwydd y bartneriaeth TGCh ar y cyd yn y gorffennol nac wedi cyflwyno adroddiad arno. Cynhwyswyd yr adolygiad hwn yn y rhaglen reoleiddiol yn y Cyngor ac yn y Bwrdd Iechyd. Diben yr adolygiad oedd canfod y canlynol:

- a a oedd y trefniant TGCh ar y cyd wedi cyflawni yn erbyn ei nodau gwasanaeth gweithredol;

b a'i gynlluniau blynyddol fel y'u nodwyd adeg sefydlu;

c a yw'r gwasanaeth yn llwyddo i ddiwallu anghenion defnyddwyr ar hyn o bryd, a oes ganddo drefniadau llywodraethu a goruchwylio effeithiol, ac a yw'n ariannol gadarn; ac

ch a oes cynlluniau tymor canolig clir ar waith sy'n helpu i gyflawni nodau strategol a nodau gwasanaeth ehangach y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

42 Gwnaed y gwaith yn ystod mis Hydref a mis Tachwedd 2014 a chyflwynwyd adroddiad arno ym mis Chwefror 2015. Y casgliadau oedd bod y bartneriaeth TGCh adran 33 wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn y rhan fwyaf o'r amcanion y cytunwyd arnynt ar ei chyfer, ond mae'r sefyllfa yn fwy heriol lle bo'r gwelliannau yn dibynnu ar drydydd parti.

43 Daethom i'r casgliad hwn am y rhesymau canlynol:

a cytunwyd ar nodau busnes y bartneriaeth Adran 33 ac fe'u dyluniwyd yn effeithiol i helpu i roi ffocws i waith y bartneriaeth newydd; a

b llwyddodd y bartneriaeth TGCh i gyflawni'n effeithiol yn erbyn y rhan fwyaf o'i hamcanion ac mae wedi lleihau'r risg gyffredinol i'r gwasanaeth ond cafodd fwy o anawsterau wrth gyflawni newidiadau a oedd y tu allan i reolaeth uniongyrchol y bartneriaeth TGCh ac wrth integreiddio timau.

44 Mae'r bartneriaeth TGCh wedi'i sefydlu'n effeithiol i ddarparu gwasanaethau y cytunir arnynt yn flynyddol ac i gefnogi gwelliant parhaus. Ceir trefniadau effeithiol a theg ar gyfer pennu cyllidebau a rheoli ariannol ar gyfer cronfeydd cyfunol. Mae adnoddau'r gwasanaeth TGCh i ddiwallu anghenion cyfredol yn gyfyngedig ac mae trefniadau rheoli'r bartneriaeth wedi'u hintegreiddio'n effeithiol, ond gellid gwneud mwy i integreiddio timau gwasanaeth gweithredol er mwyn creu arbedion ac atgyfnerthu'r tîm TGCh ymhellach.

45 Ceir trefniadau effeithiol a phriodol ar gyfer goruchwylio a llywodraethu'r bartneriaeth TGCh adran 33 ac mae metrigau perfformiad rhesymol ar waith ond mae angen gwneud mwy bellach i ailgynllunio mesurau perfformiad i gynnwys safonau gwasanaeth diwygiedig, nodau gweithredol, yr effaith ar brosiectau a defnyddio TGCh fel galluogwr ar gyfer newidiadau ehangach i wasanaethau.

46 Ceir dulliau gweithredu da ar gyfer datblygu strategaethau TGCh, ond erys cyfleoedd i ddefnyddio technoleg i gefnogi effeithlonrwydd gwasanaethau yn ehangach. Ar y cyfan mae'r bartneriaeth TGCh wedi llwyddo i gyflawni yn erbyn ei strategaeth ar gyfer 2011 ac wedi datblygu gwasanaeth sefydlog. Mae'r bartneriaeth TGCh wrthi'n datblygu strategaeth TGCh 2011-2018 a bydd angen iddi ganolbwyntio ar y broses o ddatblygu technoleg fel galluogwr o ran moderneiddio gwasanaethau ac o ran sicrhau arbedion y gellir eu cyfnewid am arian parod i'r Cyngor a'r Bwrdd Iechyd.

## Mae'r Cyngor wedi ymgorffori dull hyfforddi er mwyn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â gallu ac adnoddau

47 Yn ystod 2010-11 nododd nifer o adolygiadau ac adroddiadau, gan gynnwys argymhelliad statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, nad oedd gan y Cyngor yr adnoddau na'r gallu arwain i gyflawni'r newidiadau angenrheidiol, er mwyn i wasanaethau gael eu darparu'n effeithiol yn y dyfodol. Mewn ymateb, bu'r Cyngor yn ymrwymedig iawn i dderbyn ac ymgorffori hyfforddiant er mwyn meithrin gallu a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud ag adnoddau ym mhob rhan o'r Cyngor. Digwyddodd hyn yn ystod adeg o newid sylweddol o fewn strwythur y sefydliad a phan oedd cydberthnasau allanol cydweithredol pellach yn cael eu datblygu gyda'r Bwrdd Iechyd.

48 Y dull gweithredu a fabwysiadwyd, gyda chymorth Prifysgol De Cymru a'r Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth, fu datblygu tîm craidd o hyfforddwyr mewnol hyd at lefel 5 (ac uwch) y Sefydliad Arweinyddiaeth a Rheolaeth o bob rhan o'r sefydliad i fod yn ganolbwynt ac yn gyfrwng ar gyfer cymorth hyfforddi pellach i staff. Mae cenhadon dros y rhaglen wedi llwyddo i integreiddio gwerth y 'model hyfforddi' i swyddogion iau ac uwch swyddogion gyda chymorth aelodau ei gyngor er mwyn helpu i greu diwylliant newydd, mewn ffordd gynaliadwy.

49 Wrth werthuso effaith ei raglen hyfforddi dros y tair blynedd diwethaf, mae'r Cyngor o'r farn ei bod wedi datblygu diwylliant ac ymddygiad sefydliadol mewn modd cadarnhaol ac wedi helpu, yn fwyfwy, i gyflawni canlyniadau cadarnhaol gan ganolbwyntio ar y dinesydd. Mae hyrwyddwyr o bob rhan o'r sefydliad wedi rhannu eu profiadau o'r rhaglen hyfforddi, gan ddangos awydd i gyfrannu eu hanes at y darlun gwerthuso ehangach a rhannu'r hyn a ddysgwyd ganddynt drwy'r sefydliad cyfan.

50 Mae'r Cyngor wedi comisiynu Prifysgol De Cymru i gynnal adolygiad gwerthusol annibynnol o'i raglen hyfforddi.

## Mae cynllun gwella'r Cyngor a'i werthusiad o'i berfformiad yn bodloni gofynion Mesur 2009

51 Mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus o ran y ffordd y mae'n cyflawni ei swyddogaethau. Daeth Tystysgrif Cynllun Gwella yr Archwilydd Cyffredinol ym mis Gorffennaf 2014 (Atodiad 2) i'r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan y Mesur.

52 Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cynllun Powys yn Un 2014-2017. Mae hwn yn gynllun ar gyfer newid rhwng pob partner ym Mwrdd Gwasanaethau Lleol Powys. Mae'r cynllun yn cynnwys pum blaenoriaeth wella, sef:

a Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Oedolion

b Plant a Phobl Ifanc

c Trosglwyddo Dysgu a Sgiliau

ch Cymunedau cryfach a diogelach sy’n economaidd hyfyw

d Datblygu Sefydliadau a Phartneriaethau

53 Mae’r Cyngor, gyda’i bartneriaid, wedi sefydlu trefniant rheoli rhaglenni. Mae pob blaenoriaeth wella yn cael ei rheoli gan fwrdd rhaglen.

54 Mae trefniadau’r rhaglenni yn dal i gael eu datblygu. Mae’r Cyngor a’r Bwrdd Iechyd yn adolygu’r fethodoleg rheoli prosiectau wrth iddynt geisio cytuno ar ddull gweithredu cyffredin. Mae ansawdd a chyflawnrwydd y wybodaeth yn y templedi rheoli prosiectau yn amrywio rhwng y byrddau rhaglenni gwahanol. Nid yw’r proffiliau buddiannau na’r mesurau buddiannau a nodwyd yn ddigon datblygedig eto i ddarparu lefel ddigonol o drylwyredd er mwyn mesur canlyniadau a pherfformiad yn effeithiol. Hyd yma nid oes fawr ddim hyfforddiant wedi’i ddarparu o ran y system rheoli rhaglenni newydd ychwaith ac mae’r Cyngor yn cydnabod bod hwn yn fater y mae angen rhoi sylw iddo.

55 Cynllun Powys yn Un yw’r ddogfen strategol allweddol ar gyfer gwaith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Felly, mae’n bwysig bod cynnydd o ran cyflawni’r canlyniadau a nodwyd yn cael ei reoli a’i fonitro’n effeithiol; oherwydd hyn bydd ein rhaglen waith ar gyfer 2015-16 yn cynnwys adolygiad o’r broses barhaus o ddatblygu’r gwaith hwn.

56 Hefyd, cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau adrodd ar welliant o dan y Mesur. Daeth Tystysgrif Asesiad Gwella’r Archwilydd Cyffredinol ym mis Tachwedd 2014 (Atodiad 3) i’r casgliad bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur.

## Perfformiad

### Mae'r Cyngor yn wynebu heriau sylweddol o ran llunio ac ailfodelu ei ddarpariaeth gofal cymdeithasol nawr ac yn y dyfodol a chadernid ei swyddogaethau contractio a chomisiynu

57 Bu aildendro ei ddarpariaeth gofal cartref yn her wirioneddol i'r Cyngor eleni. Mae hyn wedi cael effaith negyddol sylweddol ar nifer fawr o oedolion sy'n agored i niwed yn y gymuned. Mae'r Cyngor yn bwriadu cynnal adolygiad annibynnol o'i broses comisiynu ac aildendro ac mae'n gweithio gyda'r Asiantaeth Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol i weithredu ar hyn.

58 Mae AGGCC wedi chwarae rhan weithredol yn yr ymateb amlasiantaeth i sicrhau lles pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cartref yn y sir ac mae wedi monitro perfformiad yr asiantaethau darparu a'r gwaith parhaus y mae'r Cyngor yn ei wneud o ran rheoli gofal, contractio a chomisiynu'r gwasanaethau hyn. Arweiniodd y gwaith monitro hwn at arolygiad AGGCC o wasanaethau gofal cymdeithasol oedolion Powys ac, yn benodol, ei drefniadau ar gyfer darparu gofal cartref yn y sir a gynhaliwyd rhwng mis Mawrth a mis Mai 2015.

59 Cyhoeddodd AGGCC ei Adolygiad a Gwerthusiad Blynyddol o Berfformiad 2012/2013 ym mis Hydref 2014 sydd ar gael ar ei gwefan: www.cssiw.org.uk. Nododd AGGCC fod y Cyngor yn wynebu gostyngiadau cyllidebol sylweddol a bydd hyn, ynghyd â'r gwaith o weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac agenda uchelgeisiol ar gyfer gwella gwasanaethau, yn her sylweddol.

60 Mae'r Cyngor bellach wedi recriwtio ei uwch dîm rheoli ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol sydd wedi cynnwys penodi cyfarwyddwr statudol a phenaethiaid gwasanaethau oedolion a gwasanaethau plant. Ochr yn ochr â'r newid hwn mewn arweinwyr cafwyd nifer o newidiadau gwleidyddol, gan gynnwys penodi deiliaid portffolios newydd ar gyfer gwasanaethau cymdeithasol.

61 Mae'r Cyngor, wrth gytuno ar ei gyllideb ar gyfer 2014-15, wedi nodi bod angen gwneud arbedion sylweddol sy'n cyfateb i tua £40 miliwn dros y tair blynedd nesaf. Ar gyfer 2014-15, cyfanswm yr arbedion sydd angen eu cyflawni ar gyfer gofal cymdeithasol oedolion a gwasanaethau plant yw £2.7 miliwn a £675,000 yn y drefn honno. Mae hon yn sefyllfa heriol, yn enwedig yng nghyd-destun darparu a moderneiddio gwasanaethau ym maes gofal cymdeithasol oedolion.

62 Cyflwynodd y Cyngor ei ddatganiad o fwriad ar gyfer darparu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig i bobl hŷn ag anghenion cymhleth i Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2014. Mae'r datganiad hwn yn cynnwys asesiad o'r trefniadau presennol ac yn nodi'r sefyllfa ar gyfer darparu gwasanaethau integredig a chyfres o ymrwymiadau ar gyfer adeiladu ar y rhain yn y dyfodol.

63 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen darparu gwasanaethau i bobl yn eu dewis iaith. Wrth ymateb i 'Mwy na Geiriau', – sef y fframwaith strategol ar gyfer gwasanaethau Cymraeg ym meysydd iechyd, gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol – mae'n cael ei ymgorffori mewn contractau comisiynu, a'r gofyniad i ddarparu gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r bartneriaeth plant a phobl

ifanc hefyd yn sefydlu grŵp herio a chraffu safonau'r Gymraeg, a gaiff ei arwain gan swyddog y Gymraeg er mwyn cefnogi'r bartneriaeth plant a phobl ifanc.

64 Mae'r Cyngor wedi gwneud cynnydd o ran datblygu ei wasanaeth ailalluogi i'r sir gyfan, i'r graddau fel ei fod bellach yn gwbl weithredol o fewn rhan helaeth o'r sir.

## Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn unol â'r safon ofynnol, ond bydd yn ei chael hi'n anodd ymgymryd â dyletswyddau statudol newydd sy'n diogelu'r cyhoedd a'r amgylchedd

65 Mae gan gynghorau lawer o ddyletswyddau statudol ym maes iechyd yr amgylchedd ond nid yw gwariant yn cael ei ddiogelu yn ystod y cyfnod presennol o galedi ariannol, sy'n golygu ei bod yn anos i'r gwasanaeth gyflawni blaenoriaethau strategol cenedlaethol.

66 Mae'r Cyngor yn rhagori ar lefelau gofynnol wrth ddarparu'r rhan fwyaf o'i wasanaethau iechyd yr amgylchedd, fel y'u bernir yn erbyn Safonau Arfer Gorau Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd. Gwnaeth y Cyngor doriadau sylweddol i gyllidebau a niferoedd staff iechyd yr amgylchedd rhwng 2011-12 a 2013-14 ac mae dyletswyddau statudol newydd yn cael eu cyflwyno ym maes iechyd yr amgylchedd y bydd yn anodd i'r Cyngor eu cyflawni.

67 Noda arolwg o'r staff fod ymatebwyr yn gadarnhaol ar y cyfan am safon gyfredol gwasanaeth iechyd yr amgylchedd ond mae'r ymwybyddiaeth o berfformiad neu gynlluniau ar gyfer y dyfodol ymhlith dinasyddion yn isel ar hyn o bryd.

## Mae'r Cyngor wedi nodi anghenion ei ddinasyddion a'i weithlu o ran y Gymraeg ac mae'n integreiddio'r wybodaeth hon yn y ffordd y mae'n darparu gwasanaethau

68 Crëwyd rôl Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) gan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Daeth pwerau newydd i orfodi safonau ar sefydliadau i rym drwy is-ddeddfwriaeth ar 31 Mawrth 2015. Bydd y Comisiynydd yn parhau i adolygu cynlluniau iaith Gymraeg yn rhinwedd y pwerau a etifeddwyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.

69 Mae'r Comisiynydd yn gweithio gyda phob cyngor yng Nghymru i arolygu cynlluniau iaith a rhoi cyngor ar y broses o'u rhoi ar waith. Mae cyfrifoldeb ar gynghorau i ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yn Gymraeg yn unol â'r ymrwymiadau yn eu cynlluniau iaith. Mae pob cyngor wedi ymrwymo i ddarparu adroddiad monitro blynyddol i'r Comisiynydd yn amlinellu ei berfformiad wrth weithredu'r cynllun iaith. Mae'r Comisiynydd yn dadansoddi pob adroddiad monitro, yn ymateb yn ffurfiol ac yn casglu rhagor o wybodaeth yn ôl yr angen.

70 Nododd y Comisiynydd fod arolwg boddhad cwsmeriaid o wasanaethau Cymraeg y Cyngor wedi'i gynnal yn 2013-14. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio'r canfyddiadau i nodi unrhyw fylchau yn y ddarpariaeth a'r cymorth sydd ei angen ar wasanaethau a'u staff.

71 Bu oedi unwaith eto eleni cyn cyflwyno'r adroddiad monitro blynyddol ar weithredu'r cynllun iaith Gymraeg. O ganlyniad, nid yw'r broses fonitro wedi'i chwblhau. Mae dyddiad cyflawni sawl targed wedi'i ohirio.

72 Mae'r Cyngor yn parhau i geisio cael gwybodaeth gyflawn am sgiliau iaith y gweithlu. Casglwyd data am tua 57.5 y cant o'r staff yn ystod 2013-14. Mae'r Grŵp Craffu Corfforaethol bellach yn gyfrifol am ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg, ar ôl i'r Bwrdd Llywio Cydraddoldeb a'r Gymraeg gael ei ddiddymu. Mae'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc wrthi'n sefydlu grŵp craffu a chefnogi ar gyfer y Gymraeg.

73 Mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwendid yn y cysylltiad rhwng y Cynlluniau Gwella Gwasanaethau a'r cynllun iaith. Mae'n bwriadu atgyfnerthu ei Gynlluniau Gwella drwy ganolbwyntio ar werthuso darpariaeth cyfrwng Cymraeg benodol ac anghenion penodol o ran y Gymraeg.

74 Oherwydd toriadau i gyllideb y Cyngor, mae perygl y gallai siaradwyr Cymraeg symud o swyddi allweddol. Er mwyn ceisio lleihau'r risg, cynhaliwyd asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg a chydraddoldeb yng nghyd-destun pob penderfyniad cyllidebol.

# Atodiad 1 – Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'. Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn adroddiad gwella blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig yr Archwilydd Cyffredinol yw cydgysylltu gwaith asesu a gwaith rheoliadol (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2 – Archwiliad o Gynllun Gwella 2014-15 Cyngor Sir Powys

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio Cynllun Gwella Cyngor Sir Powys (y Cyngor) yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 15(6) i (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella sy'n disgrifio ei gynlluniau i gyflawni ei ddyletswyddau i:

- wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni ei swyddogaethau;
- gwneud trefniadau i sicrhau y caiff ei amcanion gwella eu cyflawni; a
- gwneud trefniadau i arfer ei swyddogaethau er mwyn sicrhau y cyrhaeddir unrhyw safon perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei Gynllun Gwella cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol ar ôl dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi, neu ar ôl y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am baratoi'r Cynllun Gwella ac am y wybodaeth a nodir ynddo. Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, archwilio'r Cynllun Gwella, ardystio fy mod wedi gwneud hynny a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau i baratoi a chyhoeddi Cynllun Gwella yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad o'r Cynllun Gwella

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth nac ar b'un a ellir cyflawni'r Cynllun Gwella a gyhoeddwyd gan y Cyngor. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o Gynllun Gwella'r Cyngor yn cynnwys adolygu'r cynllun er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r cynllun yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth baratoi a chyhoeddi ei gynllun.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

## Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Colin Davies, Rheolwr
Justine Morgan, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 3 – Archwiliad o Asesiad Cyngor Sir Powys o Berfformiad 2013-14

## Tystysgrif

Ardystiaf fy mod wedi archwilio asesiad Cyngor Sir Powys (y Cyngor) o'i berfformiad yn 2013-14 yn unol ag adran 17 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) a'm Cod Ymarfer Archwilio.

O ganlyniad i'm harchwiliad, rwyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau o dan adrannau 15(2), (3), (8) a (9) o'r Mesur ac wedi gweithredu yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

## Priod gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Archwilydd Cyffredinol

O dan y Mesur, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi asesiad bob blwyddyn sy'n disgrifio ei berfformiad o ran:

- cyflawni ei ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau;
- cyflawni'r amcanion gwella y mae wedi'u pennu iddo'i hun;
- drwy gyfeirio at ddangosyddion perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a dangosyddion perfformiad hunanosodedig; a
- chyrraedd unrhyw safonau perfformiad a nodir gan Weinidogion Cymru a safonau perfformiad hunanosodedig.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi ei asesiad cyn 31 Hydref yn y flwyddyn ariannol sy'n dilyn y flwyddyn ariannol y mae'r wybodaeth yn ymwneud â hi, neu erbyn y cyfryw ddyddiad arall ag y gall Gweinidogion Cymru ei nodi drwy orchymyn.

Mae'r Mesur yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor ystyried canllawiau a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru wrth gyhoeddi ei asesiad.

Fel archwilydd y Cyngor, mae'n ofynnol i mi, o dan adrannau 17 a 19 o'r Mesur, gynnal archwiliad er mwyn nodi a yw'r Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswydd i gyhoeddi asesiad o berfformiad, ardystio fy mod wedi gwneud hynny, a chyflwyno adroddiad i nodi a wyf o'r farn bod y Cyngor wedi cyflawni ei ddyletswyddau yn unol â'r gofynion statudol a nodir yn adran 15 a chanllawiau statudol.

## Cwmpas yr archwiliad

At ddibenion fy ngwaith archwilio, ar yr amod bod awdurdod yn bodloni ei ofynion statudol, byddaf yn derbyn ei fod hefyd wedi cydymffurfio â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru yn ddigonol i gyflawni ei ddyletswyddau.

Ar gyfer yr archwiliad hwn nid yw'n ofynnol i mi lunio barn ar gyflawnrwydd na chywirdeb y wybodaeth. Efallai y bydd gwaith asesu arall y byddaf yn ei wneud o dan adran 18 o'r Mesur yn ystyried y materion hyn. Felly, roedd fy archwiliad o asesiad y Cyngor o'i berfformiad yn cynnwys adolygu cyhoeddiad y Cyngor er mwyn nodi a oedd yn cynnwys elfennau a ragnodir mewn deddfwriaeth. Asesais hefyd a oedd y trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r asesiad yn cydymffurfio â gofynion y ddeddfwriaeth ac a oedd y Cyngor wedi ystyried canllawiau statudol wrth ei baratoi a'i gyhoeddi.

Ni ellir dibynnu ar y gwaith a wnaed gennyf er mwyn cyflwyno adroddiadau a gwneud argymhellion yn unol ag adrannau 17 a 19 o'r Mesur yn unig i nodi pob gwendid neu gyfle i wella.

## Nid wyf yn gwneud unrhyw argymhellion o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009

Huw Vaughan Thomas
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**

COPI I: Lesley Griffiths, Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth
Colin Davies, Rheolwr
Justine Morgan, Arweinydd Archwilio Perfformiad

# Atodiad 4 – Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Barry Thomas
Arweinydd
Cyngor Sir Powys
Neuadd y Sir
Llandrindod
Powys
LD1 5LG

Annwyl Gynghorydd Thomas

**Llythyr Archwilio Blynyddol – Cyngor Sir Powys 2013-14**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol. Ar 30 Medi 2014, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol a thrafodion y Cyngor a'r Gronfa Bensiwn. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Hysbyswyd aelodau'r Pwyllgor Archwilio am y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o Ddatganiadau Ariannol ar 26 Medi 2014, a chyflwynir adroddiad manylach maes o law.

Nododd yr adroddiad i’r Pwyllgor Archwilio, y cyfeiriwyd ato uchod, rai anawsterau sylweddol a wynebwyd gan y tîm archwilio wrth brofi’r datganiadau ariannol, megis:

- Gwallau perthnasol a nodwyd yn y datganiadau ariannol drafft. Nododd ein gwaith sawl gwall perthnasol yn y cyfrifon drafft (gan gynnwys taliadau a ailgodwyd yn fewnol, asedau sefydlog a chyfrifon masnachu), yr oedd angen eu diwygio cyn i mi roi fy marn.

- Ni chynhaliwyd gwiriadau Sicrhau Ansawdd cyn cyhoeddi’r Datganiadau Ariannol drafft ac, o ganlyniad, roedd nifer fawr o wallau ac roedd y cyfrifon, ar y cyfan, o ansawdd gwael.

- Wynebodd fy nhîm oedi cyn derbyn ymatebion a/neu dystiolaeth i ateb ymholiadau archwilio. Roedd hyn yn golygu bod y broses o glirio rhai materion yn un hir iawn ac arweiniodd at ymholiadau ac addasiadau ychwanegol hwyr iawn.

Tynnodd ein hadroddiad sylw at wendidau ac anawsterau eraill a nodwyd yn ystod yr archwiliad, a olygai fod risg na fodlonid y terfyn amser statudol ar gyfer cyhoeddi cyfrifon archwiliedig. Er mwyn bodloni’r terfyn amser bu’n rhaid i’r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo cyfrifon anghyflawn gyda’r cafeat y câi ei hysbysu am unrhyw newidiadau sylweddol pellach cyn iddynt gael eu llofnodi.

Mae’n amlwg bod hon yn sefyllfa y mae’r Cyngor am ei hosgoi mewn blynyddoedd i ddod ac mae’r Cyfarwyddwr Strategol Adnoddau wedi comisiynu ymgynghorwyr allanol i helpu i wella’r broses o lunio’r datganiadau ariannol drafft. Mae hyn yn cynnwys gwella cynlluniau cau cyfrifon, deall gofynion archwilwyr allanol, cynnal prosesau adolygu ansawdd cadarn a sicrhau bod pob aelod o staff ym mhob rhan o’r Cyngor yn deall pwysigrwydd llunio a chlirio’r Datganiadau Ariannol.

Yn 2014, yn gyffredin â blynyddoedd diweddar eraill, rydym yn parhau i gael mwy o eitemau o ohebiaeth, heriau a datgeliadau chwythu’r chwiban gan aelodau o’r cyhoedd a chyflogeion Cynghorau nag yr ydym yn cynllunio ar eu cyfer yn ein Hamlinelliad o Archwiliad. Nid yw’r eitemau hyn bob amser yn arwain at adolygiadau sylweddol, ond ymhlith dwy o’r eitemau a gofnodwyd eleni ac y cymerodd fwy o amser i ymdrin â hwy mae ein hadroddiad ar gyhuddiadau a wnaed o dan ddeddfwriaeth chwythu’r chwiban (Pwyllgor Archwilio Ebrill 2014) a’m llythyr at y Swyddog Adran 151 ynglŷn â phryderon ynghylch rhan Cyfalaf y grantiau Camddefnyddio Sylweddau (Pwyllgor Archwilio Hydref 2014). Fel y nodwyd yn ein Hamlinelliad o Archwiliad, bob blwyddyn rydym yn cynnwys swm bach o fewn ein ffi archwilio ar gyfer y cyfryw eitemau ond, unwaith eto eleni, mae wedi cymryd llawer mwy o amser nag a fwriadwyd i glirio’r eitemau hyn ac mae hyn yn rhan o’r ffi ychwanegol a nodir ar ddiwedd y llythyr hwn.

## Rwy’n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau

Mae fy ystyriaeth o drefniadau’r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi’i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o’r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi’i brofi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

Yn unol ag awdurdodau unedol eraill yng Nghymru, mae Cyngor Sir Powys yn wynebu amgylchedd ariannol heriol iawn yn y byrdymor a'r tymor canolig. Nododd fod angen iddo arbed £17.6 miliwn yn 2014-15 a chyfanswm o tua £70 miliwn erbyn 2020.

Ein barn gyffredinol ar drefniadau rheoli ariannol y Cyngor yw eu bod yn gadarn ar y cyfan ac mae'n eu datblygu ymhellach er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas at y diben yn yr hinsawdd ariannol fwyfwy heriol. Fodd bynnag, ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn cysoni ei drefniadau monitro perfformiad ariannol a pherfformiad gwasanaethau er mwyn lliniaru'r risg y caiff safonau gwasanaeth disgwyliedig eu peryglu wrth sicrhau arbedion ariannol. Daethom i'r casgliad hwn o ganlyniad i'r canfyddiadau canlynol:

- Dros y cyfnod 2011-14, mae gan y Cyngor hanes da o gyflawni arbedion a nodwyd o fewn y flwyddyn yn erbyn y camau gweithredu arfaethedig a gymeradwywyd ganddo.
- Yn ddiweddar cwblhaodd y Cyngor adolygiad sylfaenol o'i drefniadau cynllunio ariannol strategol er mwyn ei alluogi i weithredu ei fodel 'cyngor comisiynu' newydd a sicrhau bod ganddo drefniadau ar waith sy'n addas at y diben yn ystod cyfnodau o her ariannol sylweddol. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys gweledigaeth o'r newydd; egwyddorion pennu cyllideb newydd; blaenoriaethau newydd ar gyfer gweithredu model gweithredol y 'cyngor comisiynu'; a safbwynt tymor hwy o ran cynllunio ariannol hyd at 2020.
- Mae trefniadau rheoli a rheolaeth ariannol y Cyngor yn addas at y diben ac maent yn cael eu rheoli'n effeithiol. Yn dilyn adolygiad ariannol gan gymheiriaid a gynhaliwyd gan CLlLC, mae'r Cyngor wedi ailstrwythuro ei swyddogaeth gyllid ac mae wrthi'n rhoi gwasanaeth cymorth gwybodaeth busnes a rheoli ariannol ar waith ar gyfer ei gwsmeriaid yn hytrach na pharhau i gyflawni rôl gyfrifyddu draddodiadol. Mae'r swyddogaeth gyllid yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau er mwyn nodi'r ffactorau sy'n achosi ansefydlogrwydd wrth gyflawni cyllidebau gwasanaethau a mynd i'r afael â hwy, er enghraifft mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Oedolion.
- Mae gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu ariannol ac mae'n gweithio gyda'r Ganolfan Craffu Cyhoeddus, CIPFA a Grant Thornton er mwyn gwella eu heffeithiolrwydd o ran cynnal prosesau herio, monitro a chraffu ariannol cadarn ymhellach.
- Mae gan y Cyngor gynlluniau priodol ar waith er mwyn sicrhau arbedion gwerth £17.6 miliwn y mae wedi nodi bod angen eu cyflawni ar gyfer 2014-15, ac mae'n eu monitro'n ofalus er mwyn nodi unrhyw risg o lithriant sylweddol a fyddai'n amharu ar gronfeydd wrth gefn. Fodd bynnag, mae angen ymestyn y trefniadau monitro ariannol i gynnwys data perfformiad gwasanaethau er mwyn hwyluso gwaith craffu a herio effeithiol gan yr aelodau er mwyn sicrhau na pheryglir safonau gwasanaeth disgwyliedig.

## Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o'r cyfrifon wedi'i gwblhau ar 30 Medi 2014

## Nid yw'r gwaith a wnaed gennyf hyd yma yn ardystio hawliadau a ffurflenni grant wedi nodi materion sylweddol a fyddai'n effeithio ar gyfrifon 2014-15 na systemau ariannol allweddol

A more detailed report on my grant certification work will follow in March 2015 once this Bydd adroddiad manylach ar fy ngwaith ardystio grantiau yn dilyn ym mis Mawrth 2015 unwaith y bydd rhaglen waith ardystio eleni wedi'i chwblhau. Nododd ein hadroddiad ar waith ardystio grantiau 2012-13 rai gwendidau yn eich trefniadau ar gyfer monitro gwariant yr eir iddo gan drydydd partïon.

Fel y nodwyd uchod, cafwyd anawsterau sylweddol yn ystod yr archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ac rydym wedi gwneud rhagor o waith nag a fwriadwyd ar eitemau o ohebiaeth a gafwyd a gwybodaeth chwythu'r chwiban. O ganlyniad, y ffi archwilio ariannol ar gyfer 2013-14 fydd £26,832 yn fwy na'r swm a bennwyd yn wreiddiol a nodir yn yr Amlinelliad o'r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

John Herniman
**Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig**

copi i: Jeremy Patterson, Prif Weithredwr
David Powell, Cyfarwyddwr Strategol – Adnoddau

# Atodiad 5 – Argymhellion adroddiadau cenedlaethol 2014-15

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Mai 2014 | Craffu Da? Cwestiwn Da! | A1 | Egluro rôl aelodau gweithredol ac uwch swyddogion wrth gyfrannu at y broses graffu. |
| | | A2 | Sicrhau bod aelodau craffu, ac yn benodol cadeiryddion craffu, yn cael hyfforddiant a chymorth er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar yr holl sgiliau sydd eu hangen i gynnal gwaith craffu effeithiol. |
| | | A3 | Datblygu prosesau blaenraglennu craffu ymhellach er mwyn:<br>• darparu rhesymeg glir dros ddewis pynciau;<br>• canolbwyntio mwy ar ganlyniadau;<br>• sicrhau y defnyddir y dull craffu mwyaf addas ar gyfer y maes pwnc a'r canlyniad dymunol; a<br>• chysoni rhaglenni craffu â threfniadau rheoli perfformiad, hunanwerthuso a gwella'r cyngor. |
| | | A4 | Sicrhau bod gwaith craffu yn defnyddio gwaith archwilio, arolygu a rheoleiddio yn effeithiol a bod ei weithgareddau yn ategu gwaith cyrff adolygu allanol. |
| | | A5 | Sicrhau y caiff effaith craffu ei gwerthuso'n briodol ac y gweithredir arni er mwyn gwella effeithiolrwydd y swyddogaeth; gan gynnwys gwneud gwaith dilynol ar gamau gweithredu arfaethedig ac archwilio canlyniadau. |
| | | A6 | Cynnal hunanwerthusiadau rheolaidd o drefniadau craffu gan ddefnyddio 'canlyniadau a nodweddion trefniadau trosolwg a chraffu effeithiol i lywodraeth leol' a ddatblygwyd gan Rwydwaith Swyddogion Craffu Cymru. |
| | | A7 | Rhoi cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella craffu ar waith yn seiliedig ar astudiaeth wella Swyddfa Archwilio Cymru. |
| | | A8 | Mabwysiadu 10 Egwyddor Cyfranogaeth Cymru ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd wrth wella'r ffordd y mae'r swyddogaeth graffu yn ymgysylltu â'r cyhoedd a rhanddeiliaid. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Gorffennaf 2014 | Pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant - Canfyddiadau adolygiad o gynghorau yng Nghymru | A1 | Ynghyd â phartneriaid, mapio ac adolygu’r gwariant ar wasanaethau NEET er mwyn deall yn well pa adnoddau sydd eu hangen i gyflawni’r Fframwaith. |
| | | A2 | Egluro eu dull strategol o ostwng cyfran y bobl ifanc 19-24 oed sy’n NEET yn ogystal â’u dull ar gyfer pobl ifanc 16-18 oed. |
| | | A3 | Canolbwyntio ar bobl ifanc sy’n wynebu rhwystrau sylweddol neu luosog i ymgysylltu ag addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn hytrach na’r rhai sy’n fwy tebygol o ailymgysylltu heb lawer o gymorth ychwanegol. |
| | | A4 | Datblygu eu hamcanion a’u targedau ar gyfer lleihau nifer y bobl ifanc sy’n NEET fel bod modd eu dwyn i gyfrif ac fel bod eu gwaith yn gyson â thargedau ac amcanion Llywodraeth Cymru. |
| | | A5 | Sicrhau bod aelodau etholedig a phartneriaid yn deall yn llwyr fod gan gynghorau gyfrifoldeb clir i arwain a chydgysylltu gwasanaethau ieuenctid i bobl ifanc 16-24 oed. |
| | | A6 | Gwella prosesau i werthuso effeithiolrwydd a gwerth am arian cymharol y gwasanaethau a’r ymyriadau yn eu hardal y bwriedir iddynt helpu i ostwng cyfran y bobl ifanc sy’n NEET. |


<table>
<tr><th>Dyddiad yr adroddiad</th><th>Teitl yr adolygiad</th><th colspan="2">Argymhelliad</th></tr>
<tr><td rowspan="4">Hydref 2014</td><td rowspan="4">Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion</td><td>A1</td><td>Diwygio’r safonau arfer gorau er mwyn:<br>• cysoni gwaith ym maes iechyd yr amgylchedd â blaenoriaethau strategol cenedlaethol;<br>• nodi cyfraniad ehangach iechyd yr amgylchedd at gyflawni blaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru; a<br>• nodi buddiannau ac effaith gwasanaethau iechyd yr amgylchedd o ran diogelu dinasyddion.</td></tr>
<tr><td>A2</td><td>Rhoi’r sgiliau a’r cymorth sydd eu hangen ar gadeiryddion ac aelodau pwyllgorau craffu i graffu ar berfformiad gwasanaethau, cynlluniau arbed ac effaith gostyngiadau cyllidebol a’u herio’n effeithiol.</td></tr>
<tr><td>A3</td><td>Ymgysylltu’n well â thrigolion lleol ynghylch cynlluniau i dorri cyllidebau a newid gwasanaethau drwy:<br>• ymgynghori â thrigolion ar newidiadau arfaethedig mewn gwasanaethau a defnyddio’r canfyddiadau i lywio penderfyniadau;<br>• amlinellu pa wasanaethau a gaiff eu torri a sut y bydd y toriadau hyn yn effeithio ar drigolion; a<br>• nodi cynlluniau i gynyddu taliadau neu newid safonau gwasanaeth.</td></tr>
<tr><td>A4</td><td>Gwella effeithlonrwydd a gwerth am arian drwy:<br>• Nodi dyletswyddau statudol ac anstatudol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cynghorau.<br>• Cytuno ar flaenoriaethau iechyd yr amgylchedd ar gyfer y dyfodol a rôl cynghorau wrth gyflawni’r rhain.<br>• Pennu ‘safon dderbyniol o berfformiad’ ar gyfer gwasanaethau iechyd yr amgylchedd (uchaf ac isaf) a rhoi cyhoeddusrwydd iddynt ymhlith dinasyddion.<br>• Gwella effeithlonrwydd a chynnal perfformiad ar y lefel y cytunwyd arni drwy wneud y canlynol:<br>– cydweithio a/neu integreiddio ag eraill er mwyn lleihau costau a/neu wella ansawdd;<br>– gosod gwasanaethau ar gontractau allanol lle y gellir eu darparu mewn ffordd fwy cost-effeithiol yn unol â’r safonau y cytunwyd arnynt;<br>– cyflwyno a/neu gynyddu taliadau a chanolbwyntio ar weithgarwch sy’n cynhyrchu incwm;<br>– defnyddio grantiau mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau’r effaith a’r elw mwyaf; a<br>– lleihau gweithgareddau er mwyn canolbwyntio ar flaenoriaethau statudol a strategol craidd.</td></tr>
</table>

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Hydref 2014 | Cyflawni â llai - yr effaith ar wasanaethau iechyd yr amgylchedd a dinasyddion | A5 | Gwella gwaith cynllunio strategol drwy:<br>• nodi, casglu a dadansoddi data ariannol, data ar berfformiad a data ar alw/angen mewn perthynas â gwasanaethau iechyd yr amgylchedd;<br>• dadansoddi data a gasglwyd er mwyn llywio a deall y gydberthynas rhwng 'cost: budd: effaith' a defnyddio'r wybodaeth hon i ategu penderfyniadau ar ddyfodol gwasanaethau iechyd yr amgylchedd cyngor; a<br>• chytuno sut y gellir defnyddio gwybodaeth ddigidol i gynllunio a datblygu gwasanaethau iechyd yr amgylchedd yn y dyfodol. |
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A1 | Gwella prosesau cynllunio strategol a chydgysylltu gweithgarwch yn well er mwyn mynd i'r afael ag effaith y diwygiadau lles ar denantiaid tai cymdeithasol drwy sicrhau bod cynlluniau gweithredu cynhwysfawr ar waith sy'n ymdrin â gwaith holl adrannau perthnasol cynghorau, cymdeithasau tai a gwaith rhanddeiliaid allanol. |
| | | A2 | Gwella trefniadau llywodraethu ac atebolrwydd am ddiwygiadau lles drwy wneud y canlynol:<br>• penodi aelodau a swyddogion arweiniol i gymryd cyfrifoldeb am ddarparu arweiniad strategol mewn perthynas â'r diwygiadau lles a bod yn atebol am berfformiad; a<br>• sicrhau bod aelodau yn cael hyfforddiant digonol a briffiau rheolaidd ar y diwygiadau lles er mwyn gallu herio perfformiad a phenderfyniadau a chraffu arnynt. |
| | | A3 | Sicrhau bod perfformiad o ran y diwygiadau lles yn cael ei reoli'n effeithiol drwy wneud y canlynol:<br>• pennu mesurau priodol i alluogi aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i lunio barn ar gynnydd wrth gyflawni camau gweithredu;<br>• sicrhau bod gwybodaeth am berfformiad yn ymdrin â gwaith yr holl asiantaethau perthnasol ac yn enwedig y cymdeithasau tai; a<br>• phennu mesurau i lunio barn ar effaith ehangach y diwygiadau lles. |
| | | A4 | Atgyfnerthu'r ffordd y caiff risgiau o ran y diwygiadau lles eu rheoli drwy greu un dull corfforaethol o weithredu sy'n cydgysylltu gweithgarwch ar draws y cyngor a gwaith gan eraill er mwyn rhoi digon o sicrwydd bod yr holl gamau angenrheidiol a phriodol i liniaru risg yn cael eu cymryd. |

| Dyddiad yr adroddiad | Teitl yr adolygiad | Argymhelliad | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 2015 | Rheoli Effaith Diwygiadau Lles ar Denantiaid Tai Cymdeithasol yng Nghymru | A5 | Ymgysylltu'n well â thenantiaid sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr drwy wneud y canlynol:<br>• darparu cyngor a gwybodaeth reolaidd am yr opsiynau sydd ar gael iddynt ymdrin ag effaith ariannol y newid yn eu hamgylchiadau;<br>• hyrwyddo llinell gymorth 'Mae budd-daliadau yn newid'; a<br>• chynorthwyo'r tenantiaid hynny sydd wedi colli'r cymhorthdal ystafell sbâr yn benodol i gymryd rhan mewn cynlluniau cyflogaeth rhanbarthol/cenedlaethol. |
| | | A7 | Gwella'r ffordd y caiff Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn eu rheoli a'u defnyddio a gwella mynediad iddynt drwy:<br>• sefydlu polisi neu ganllaw clir i'r cyhoedd, sydd ar gael ar ffurf copi caled ac ar-lein, sy'n nodi polisi a threfniadau'r cyngor ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• diffinio'n glir y costau tai cymwys ac anghymwys a gaiff eu cwmpasu gan Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn ffurflenni cais, dogfennau polisi a thaflenni canllaw i ymgeiswyr;<br>• nodi'n glir y cyfnodau hwyaf/byrraf posibl y caiff y taliadau hyn eu talu;<br>• pennu a chyhoeddi'r amserlen y bydd yn rhaid i'r cyngor ei dilyn wrth benderfynu ar geisiadau am Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn;<br>• cynnwys gwybodaeth mewn deunyddiau cyhoeddus ar bolisi'r cyngor ar yr hawl i adolygu neu apelio yn erbyn penderfyniad a'r amserlenni a'r broses y dylid eu dilyn wrth benderfynu ar y rhain; a<br>• diffinio'n glir y grwpiau â blaenoriaeth ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn mewn deunyddiau cyhoeddus er mwyn sicrhau y gall y rheini sy'n ceisio cymorth, a'r asiantaethau sy'n eu cynorthwyo, asesu p'un a yw'r taliadau hyn yn opsiwn ymarferol i ddiwallu eu hanghenion ariannol a'u hanghenion o ran tai. |

# Atodiad 6 – Gwybodaeth ddefnyddiol am adnoddau'r Cyngor


Cyfanswm Incwm Gros 2013-14





Cyfanswm Incwm a Gwariant




Nifer y staff cyfwerth ag amser llawn 2010-11 i 2012-13




Cyfanswm Gwariant Gros yn ôl maes gwasanaeth



Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru